# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 2il o Dachwedd 2017 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Dai Evans, John Lumley a Gwyndaf Morgan.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

## 58 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Helen Evans, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 59 Materion Personol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Mr Tom Morgan, brawd yng nghyfraith y Cynghorydd Gwyndaf Morgan a gofynwyd iddo fynegu cydymdeimliad yr Aelodau i Mrs Bet Morgan.

## 60 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Hydref 2017.

## 61 Materion yn Codi o'r Cofnodion

a) Trefniadau Bancio

Gofynwyd i'r Clerc fwrw 'mlaen i symud cyfrifon y Cyngor i Fanc Barclays.

b) Cyfyngiad Cyflymdra Ciliau Aeron

Nodwyd ateb y Cyngor Sir a bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu yn dilyn y mater i fyny. Cytunwyd hefyd y gallai'r Cyngor ddechrau paratoi tystiolaeth o or-yrru a danwiniau.

c) Postyn BT ger Bont Teglan

Nodwyd nad oedd y gwaith wedi'i orffen gan BT.

## 62 Materion Cyllidol

**PENDERFYNWYD** talu Swyddfa Archwilio Cymru am Archwiliad Allanol 2016-17 swm o £153.

**63 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth I ddau gais am gymorth ariannol a oedd angen eu trafod cyn cyfarfod mis Chwefror.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

i) cyfrannu £100 i Ysgol Gyfun Aberaeron ar gyfer cynhyrchiad 'Hairspray'; a

ii) gohirio cais Pwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron am gyfraniad i'w Hapêl Cerbyd Ymatebydd Cyntaf er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

**64 Diwygio Cynghorau Bro a Thref**

Cyfeiriodd y Clerc at y canlynol:

a) Adolygiad Llywodraeth Cymru
b) Canllawiau draft ar gyfer y Prif Gynghorau
c) Gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i fynd i Ddigwyddiad Ymgynghori Un Llais Cymru yn San Cler ar y 4ydd o Ragfyr.

**PENDERFYNWYD** gofyn iI'r Clerc fynd i Ddigwyddiad Un Llais Cymru ac i adrodd 'nol yn y cyfarfod nesaf.

**65 Unrhyw Fater Cymwys Arall – Gwefan y Cyngor**

a) Cyfeiriodd y Clerc at neges a dderbyniwyd oddi wrth Owen Llywelyn, a oedd yn gyfrifol am gynnal gwefan y Cyngor. Nodwyd ei gyngor bod angen ystyried newid darparwr yn fuan a gofynwyd i'r Clerc ddechrau trafod y ffordd ymlaen gydag ef.

b) Nodwyd bod gwasanaeth Sul y Cofio am 10.00 am yng Nghilcennin a chytunwyd prynu torch o flodau yn ôl yr arfer yn Rhosyn Dela am £25.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm